OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 Rhif 867 (Cy.79)

# ANIFEILIAID, CYMRU

## IECHYD ANIFEILIAID

## Gorchymyn Lewcosis Buchol Ensootig (Cymru) 2006

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *21 Mawrth 2006* |
| *Yn dod i rym* | - - | *31 Mawrth 2006* |

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 1, 6, 7(1), 15(4), 28, 32(2) 34(7), 35(3), 87(2) a 88(2) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**) yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Lewcosis Buchol Ensootig (Cymru) 2006 a daw i rym ar 31 Mawrth 2006.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

### Dehongli

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "anifail buchol" ("*bovine animal*") yw tarw, buwch, bustach, anner (heffer, treisiad) neu lo;

ystyr "anifail dan amheuaeth" ("*suspected animal*") yw anifail buchol dan amheuaeth o fod wedi'i effeithio gan lewcosis buchol ensootig oherwydd—

(a) ei fod yn dangos nodau lymff chwyddedig di-boen neu newidiadau tiwmorol (heblaw haemangiomâu, papilomâu neu ddafadennau) ar rannau o'i gorff; neu

(b) bod archwiliad hematolegol o'r anifail wedi datgelu cyfrif lymffosytau o fewn yr ystod a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn; neu

(c) bod unrhyw brawf arall a wnaethpwyd ar yr anifail wedi dangos presenoldeb posibl haint o achos feirws lewcosis buchol;

ystyr "anifail yr effeithiwyd arno" ("*affected animal*" yw anifail buchol yr effeithiwyd arno gan lewcosis buchol ensootig neu a heintiwyd gan feirws lewcosis buchol;

(**1**) 1981 p.22. Fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 2002, p.42. Mae'r swyddogaethau o dan Ddeddf 1981 yn awr wedi eu breinio yn y Cynulliad Cenedlaethol drwy O.S. 1999/672 ac O.S. 2004/3044.

ystyr "arolygydd milfeddygol" ("*veterinary inspector*") yw arolygydd milfeddygol a benodir gan y Cynulliad Cenedlaethol;

ystyr "carcas" ("*carcase*") yw carcas anifail buchol ac mae'n cynnwys rhan o garcas a'r cig, esgyrn, croen, carnau, gweddillion neu ran arall o anifail buchol, ar wahân neu fel arall, neu unrhyw gyfran ohono;

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "labordy a gymeradwywyd" ("*approved laboratory*") yw labordy a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol i brofi llaeth am lewcosis buchol ensootig;

ystyr "lladd-dy a gymeradwywyd" ("*approved slaughterhouse*") yw lladd-dy a gymeradwywyd gan swyddog i gigydda adweithyddion;

ystyr "llawfeddyg milfeddygol" ("veterinary surgeon") yw llawfeddyg milfeddygol neu ymarferydd milfeddygol a gofrestrwyd o dan Ddeddf Llawfeddygon Milfeddygol 1966(**2**);

mae "mangre" ("*premises*") yn cynnwys tir ag adeiladau neu dir hebddynt;

ystyr "Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol" ("*Divisional Veterinary Manager*") yw'r arolygydd milfeddygol a benodwyd ar y pryd gan y Cynulliad Cenedlaethol i gael gwybodaeth am anifeiliaid a'r clefyd arnynt neu anifeiliaid yr amheuir bod y clefyd arnynt, neu garcasau anifeiliaid y bu'r clefyd arnynt neu anifeiliaid yr amheuir y bu'r clefyd arnynt, ar gyfer yr ardal lle mae'r anifeiliaid neu'r carcasau; ac

ystyr "swyddog" ("*officer*") yw arolygydd milfeddygol neu unrhyw un o swyddogion eraill y Cynulliad Cenedlaethol.

(2) At ddibenion Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981 wrth ei gymhwyso i'r Gorchymyn hwn, estynnir diffiniad "disease" yn adran 88(1) drwy hyn i gynnwys pob ffurf ar lewcosis buchol.

(3) Rhaid i bob hysbysiad, trwydded neu gymeradwyaeth a ddyroddir o dan y Gorchymyn hwn fod yn ysgrifenedig a gellir eu gwneud yn ddarostyngedig i amodau a gellir eu diwygio, eu hatal dros dro, neu eu dirymu yn ysgrifenedig unrhyw bryd.

## Hysbysu am glefyd mewn anifeiliaid buchol

**3.**—(1) Rhaid i berson sy'n meddu ar anifail yr effeithiwyd arno neu anifail dan amheuaeth neu berson sydd â rheolaeth ar yr anifail hwnnw, neu lawfeddyg milfeddygol sy'n archwilio'r anifail hwnnw, hysbysu'r canlynol am y ffaith honno cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl —

(a) arolygydd awdurdod lleol; neu

(b) y Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol.

(2) Pan hysbysir arolygydd awdurdod lleol o dan baragraff (1) o'r erthygl hon, rhaid i'r arolygydd hysbysu'r Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol sy'n gyfrifol am yr ardal honno ar unwaith.

(3) Rhaid i berson sy'n meddu ar anifail yr effeithiwyd arno neu anifail dan amheuaeth neu berson â gofal yr anifail hwnnw, ei gadw yn y fangre lle y'i cedwir hyd nes i arolygydd milfeddygol ei archwilio.

## Hysbysu am glefyd mewn carcasau

**4.**—(1) Rhaid i unrhyw berson sy'n meddu ar garcas anifail buchol sy'n dangos arwyddion newidiadau tiwmorol (heblaw haemangiomâu, papilomâu, neu ddafadennau) yn y nodau lymff neu unrhyw ran ohono neu berson â gofal y carcas hwnnw, hysbysu'r Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol sy'n gyfrifol am yr ardal honno am ffaith honno cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl.

(**2**) 1966 p.36.

(2) Rhaid i berson sy'n meddu ar garcas y mae paragraff (1) o'r erthygl hon yn gymwys iddo, neu berson â gofal y carcas hwnnw, ei gadw yn y fangre lle y'i cedwir hyd nes i arolygydd milfeddygol ei archwilio neu hyd nes i arolygydd milfeddygol benderfynu nad oes angen archwiliad.

**Hysbysu am glefyd mewn samplau labordy**

**5.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2) isod, pan fydd archwiliad mewn labordy o sampl a gymerwyd oddi wrth anifail buchol yn dangos tystiolaeth o fodolaeth lewcosis buchol ensootig, rhaid i'r person â gofal y labordy hysbysu'r Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol ar gyfer yr ardal lle y cymerwyd y sampl neu'r ardal lle mae'r labordy am y ffaith honno o fewn 24 awr.

(2) Nid yw'r rhwymedigaeth i hysbysu ym mharagraff (1) yn gymwys pan fydd lewcosis buchol ensootig wedi'i gyflwyno i sampl labordy yn fwriadol.

**Samplo llaeth i'w brofi am dystiolaeth o lewcosis buchol ensootig**

**6.**—(1) Rhaid i unrhyw berson sy'n prynu llaeth oddi wrth berchennog buches odro yng Nghymru neu'r person â gofal amdani i'w ailwerthu fel llaeth neu gynnyrch llaeth—

(a) ddewis labordy a gymeradwywyd i brofi'r llaeth hwnnw am lewcosis buchol ensootig;

(b) hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol am y labordy a ddewiswyd;

(c) unwaith bob pum mlynedd ac ar ei draul ei hun gyflwyno dwy sampl o laeth i'r labordy hwnnw i'w brofi am dystiolaeth o lewcosis buchol ensootig a rhaid gadael bwlch o bedwar mis o leiaf rhwng pob tro y cymerir samplau a rhaid i'r samplau gynnwys llaeth oddi wrth bob buwch odro yn y fuches honno y mae ei llaeth ar gael i'w werthu;

(ch) ychwanegu at y sampl y cadwolyn hwnnw y mae'r person â gofal am y labordy yn gofyn amdano;

(d) sicrhau bod label ar y sampl sy'n cynnwys—

(i) cod bariau neu ddyfais arall sy'n galluogi'r labordy i adnabod y fuches neu'r rhan o fuches y cymerwyd y sampl ohoni; a

(ii) dyddiad cymryd y sampl.

(2) Mae person yn esempt o'r dyletswydd a osodir gan baragraff (1) uchod, os yw'r person hwnnw dim ond yn prynu llaeth amrwd wedi'i ragbacio i'w ailwerthu—

(a) yn y cynhwysydd y cafodd y person hwnnw ef ynddo a'r caewyr heb eu torri;

(b) o gerbyd a ddefnyddir yn gyfreithlon fel mangre siop; a

(c) yn uniongyrchol i'r defnyddiwr olaf.

(3) Ym mharagraff (2) uchod, ystyr "defnyddiwr olaf" yw unrhyw berson sy'n prynu llaeth heblaw at ddibenion—

(a) ei ailwerthu;

(b) sefydliad arlwyo; neu

(c) busnes gweithgynhyrchu.

(4) Ni chaiff unrhyw berson mewn unrhyw ddull na modd drin, ac eithrio drwy ychwanegu cadwolyn yn unol â pharagraff (1)(ch) uchod, unrhyw sampl neu ei label, nac ymyrryd â hwy a bernir bod person wedi trin neu ymyrryd â sampl os yw'r person yn gwneud unrhyw beth mewn perthynas ag ef sy'n debygol o effeithio ar ganlyniad y profi sy'n ofynnol o dan yr erthygl hon.

(5) Rhaid i'r person â gofal am labordy a gymeradwywyd gydymffurfio â'r darpariaethau canlynol fel un o amodau'r gymeradwyaeth —

(a) rhaid i'r person hwnnw gadw cofnod o'r buchesi yr anfonir eu llaeth i'w brofi o dan baragraff (1) uchod;

(b) rhaid i'r person hwnnw hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol ar unwaith os na cheir sampl pan y'i disgwylir oddi wrth un o'r buchesi a restrir yn y cofnodion a gedwir dan is-baragraff (a) uchod;

(c) rhaid i'r person hwnnw hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol o fewn 24 awr pan fydd sampl wedi ei brofi am dystiolaeth o fodolaeth o lewcosis buchol ensootig a bod y canlyniad yn gadarnhaol;

(ch) rhaid i'r person hwnnw hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol o fewn mis pan fydd sampl wedi ei brofi am dystiolaeth o fodolaeth lewcosis buchol ensootig a bod y canlyniad yn negyddol; a

(d) rhaid i'r person hwnnw gadw cofnod o ganlyniadau'r holl brofion a wneir am dystiolaeth o fodolaeth lewcosis buchol ensootig am gyfnod o flwyddyn o ddyddiad y prawf.

(6) Os bydd unrhyw berson yn methu â chymryd unrhyw gam sy'n ofynnol o dan ddarpariaethau paragraff (1) uchod, caiff arolygydd milfeddygol, heb ragfarnu unrhyw achos am dramgwydd sy'n codi o'r methiant hwnnw, gymryd y cam hwnnw, neu beri ei gymryd, a chaiff y Cynulliad Cenedlaethol adennill unrhyw dreuliau y mae wedi mynd iddynt yn rhesymol wrth wneud hynny oddi wrth y person sydd wedi methu â chymryd y cam gofynnol.

**Ymchwiliad milfeddygol i fodolaeth lewcosis buchol ensootig**

**7.**—(1) Pan fydd rheswm i gredu, ar sail gwybodaeth a gafwyd o dan erthyglau 3, 4, 5, neu 6 neu fel arall, bod lewcosis buchol ensootig yn bodoli neu wedi bodoli yn ystod y 56 o ddyddiau blaenorol yn unrhyw fangre, rhaid i arolygydd milfeddygol gymryd y camau hynny sy'n angenrheidiol cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl i gadarnhau —

(a) ai lewcosis buchol ensootig yw'r clefyd hwnnw;

(b) y cyfnod o amser y mae'r clefyd wedi bodoli yn y fangre; ac

(c) tarddiad posibl y clefyd yn y fangre.

(2) Pan fydd arolygydd milfeddygol yn cynnal ymchwiliad o dan yr erthygl hon i fodolaeth lewcosis buchol ensootig, rhaid i—

(a) meddiannydd y fangre y mae'r ymchwiliad yn cael ei gynnal mewn perthynas ag ef, a chyflogeion y meddiannydd;

(b) unrhyw berson sydd neu a fu'n meddu ar unrhyw anifail buchol sydd neu a fu yn y fangre hwnnw, neu berson sydd neu a fu â gofal yr anifail hwnnw; ac

(c) unrhyw lawfeddyg milfeddygol a fu'n trin unrhyw anifail buchol yn y fangre honno neu yr ymgynghorwyd ag ef ynghylch unrhyw anifail buchol neu garcas a gadwyd yn y fangre honno

roi'r cyfleusterau rhesymol hynny, a chydymffurfio â'r gofynion rhesymol hynny, sy'n angenrheidiol at ddibenion yr ymchwiliad.

(3) Rhaid i arolygydd milfeddygol sy'n mynd i fangre o dan ddarpariaethau'r erthygl hon roi'r rhesymau dros fynd iddi, os bydd y meddiannydd neu'r person â gofal yr anifeiliaid buchol yn y fangre yn gofyn amdanynt.

**Pwerau arolygwyr milfeddygol i wahardd neu reoli symud anifeiliaid buchol**

**8.** Os oes gan arolygydd milfeddygol seiliau rhesymol dros gredu y gall symud unrhyw anifail buchol o'r naill le i'r llall greu perygl lledaenu lewcosis buchol ensootig, caiff arolygydd milfeddygol, at ddibenion atal y clefyd rhag cael ei ledaenu, gyflwyno hysbysiad i berchennog neu feddiannydd y lle hwnnw neu i berchennog yr anifail buchol, neu i'r person a gofal amdano—

(a) sy'n gwahardd symud yr anifail hwnnw;

(b) ei gwneud yn ofynnol ei gadw ar wahân yn gorfforol oddi wrth anifeiliaid buchol eraill ar y fangre;

(c) yn gosod yr amodau hynny yn ymwneud â'i symud ac a fernir yn gyfleus.

**Marcio anifeiliaid yr effeithiwyd arnynt**

**9.**—(1) Rhaid i berchennog anifeiliaid buchol neu'r person a gofal amdanynt ac a gedwir ar y fangre, os mynnir hynny gan hysbysiad a gyflwynwyd gan arolygydd milfeddygol, farcio'r anifeiliaid hynny mewn dull a benna'r arolygydd milfeddygol.

(2) Caiff arolygydd milfeddygol baentio, stampio, clipio, tagio neu farcio anifeiliaid buchol a gedwir yn unrhyw fangre mewn dull arall.

(3) Ni chaiff unrhyw berson newid, tynnu, dileu, difwyno, na cheisio newid, tynnu, dileu, neu ddifwyno'r marc hwnnw.

**Cyfyngiadau ar ddefnyddio semen**

**10.** Caiff arolygydd milfeddygol gyflwyno hysbysiad i'r perchennog neu'r person sydd â gofal dros unrhyw anifeiliaid yr effeithir arnynt neu unrhyw anifeiliaid amheus a gedwir ar unrhyw fangre a hwnnw'n hysbysiad sy'n gwahardd defnyddio semen o anifeiliaid o'r fath. neu sy'n cyfyngu ar ei ddefnyddio.

**Glanhau a diheintio**

**11.**—(1) Caiff arolygydd milfeddygol gyflwyno hysbysiad i feddiannydd unrhyw fangre lle y mae neu lle y bu anifail yr effeithiwyd arno neu anifail dan amheuaeth, neu garcas y fath anifal, ac sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r meddiannydd, ar draul y meddiannydd ei hun, lanhau a diheintio—

(a) y fangre neu unrhyw ran ohoni; neu

(b) unrhyw offer, cyfarpar neu beth a ddefnyddir mewn cysylltiad ag anifail yr effeithiwyd arno, anifail dan amheuaeth, neu garcas y fath anifal.

(2) Os na chydymffurfir â gofynion hysbysiad a gyflwynir o dan baragraff (1) uchod, caiff arolygydd milfeddygol, heb ragfarnu unrhyw achos am dramgwydd sy'n codi o'r methiant hwnnw, gyflawni neu beri cyflawni'r gwaith glanhau a diheintio, a chaiff y Cynulliad Cenedlaethol adennill unrhyw dreuliau y mae arolygydd milfeddygol wedi mynd iddynt yn rhesymol oddi wrth y person sydd wedi methu â chydymffurfio â'r gofynion hynny.

(3) At ddibenion arfer y pwerau o dan baragraff (1) uchod caiff arolygydd milfeddygol, drwy ddangos ei awdurdod pan ofynnir iddo wneud hynny, fynd i mewn i fangre y cyflwynwyd hysbysiad o dan yr erthygl hon mewn cysylltiad ag ef, a chaiff fynd ag unrhyw berson y barna ei fod yn angenrheidiol gydag ef, a rhaid i'r arolygydd milfeddygol, os bydd y meddiannydd neu'r person â gofal y fangre yn gofyn iddo wneud hynny, ddweud wrtho beth yw'r rhesymau dros fynd i mewn i'r fangre.

**Darpariaethau arbennig ar gyfer anifeiliaid a fewnforir**

**12.** Ni fydd darpariaethau'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â mangreoedd a gymeradwyd o dan Orchymyn Menwforio Anifeiliaid 1977(**3**) a dim ond mewn perthynas ag anifeiliaid buchol a fewnforir o'r amser a bennir yn y drwydded a ddyroddir ar gyfer yr anifeiliaid hynny o dan erthygl 11(5) o'r Gorchymyn hwnnw y byddant yn gymwys.

(**3**) 1997/944.

### Cymhwyso adran 32 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 i lewcosis buchol ensootig

**13.** Mae adran 32 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 yn gymwys i lewcosis buchol ensootig.

### Hysbysu am gigydda arfaethedig

**14.**—(1) Pan fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn arfaethu cigydda anifail buchol o dan y pwerau a gynhwysir yn adran 32 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 wrth iddi gael ei chymhwyso i lewcosis buchol ensootig, rhaid i arolygydd milfeddygol gyflwyno hysbysiad cigydda arfaethedig i berchennog yr anifail neu i'r person sydd â gofal amdano ac sy'n hysbysu'r person hwnnw am y cigydda arfaethedig ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw ildio'r anifail i gael ei gigydda (neu i gadw'r anifail tra erys am gael ei gigydda) a'i ynysu i'r graddau y mae'n ymarferol oddi wrth anifeiliaid nas pennir yn yr hysbysiad.

(2) Rhaid i'r person y cyflwynir yr hysbysiad hwnnw iddo beidio â symud yr anifail o'r fangre neu o ran ohoni ac eithrio o dan awdurdod trwydded a ddyroddir gan y Cynulliad Cenedlaethol ac yn unol â'r telerau ynddi.

### Pwerau arolygwyr

**15.**—(1) At ddibenion y Rheoliadau hyn, bydd gan arolygydd, ar ôl dangos os gofynnir iddo neu iddi, ryw ddogfen a ddilyswyd yn briodol ac sy'n dangos awdurdod yr arolygydd, hawl ar bob adeg resymol i fynd i mewn i unrhyw fangre a feddiennir fel mangre preifat.

(2) Caiff arolygydd—

(a) arolygu unrhyw anifail buchol neu unrhyw garcas ar y fangre;

(b) archwilio unrhyw gofnodion ar ba ffurf bynnag y bônt ar y fangre a chymryd copïau o'r cofnodion hynny; neu

(c) mynd ag unrhyw berson arall gydag ef neu hi y gellir ei ystyried yn angenrheidiol at unrhyw ddiben mewn perthynas â gorfodi'r Rheoliadau hyn.

### Tramgwyddau

**16.** Bydd unrhyw berson sy'n mynd yn groes i unrhyw ddarpariaeth o'r Gorchymyn hwn neu'n methu â chydymffurfio â hi heb awdurdod neu esgus cyfreithlon yn euog o dramgwydd yn erbyn Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981.

### Gorfodi

**17.** Yr awdurdod lleol sy'n gorfodi'r Gorchymyn hwn yn ei ardal ddaearyddol.

### Dirymu

**18.** I'r graddau y mae yn gymwys i Gymru, mae Gorchymyn Lewcosis Buchol Ensootig 1997(**4**) drwy hyn wedi'i ddirymu.

(**4**) O.S. 1997/757.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**5**)

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

21 Mawrth 2006

(**5**) 1998 p.38.

# ATODLEN

Profi anifeiliaid buchol yn hematolegol

| Oedran yr Anifail Buchol | Ystod annormal: y nifer o lymffosytau fesul milimetr ciwbig | Unedau S.I. |
|---|---|---|
| O dan flwydd oed | Mwy nag 11,000 | mwy nag 11.0 |
| Blwydd ond o dan 2 flwydd | Mwy na 10,000 | mwy na 10.0 |
| 2 flwydd ond o dan 3 blwydd | Mwy nag 8,500 | mwy nag 8.5 |
| 3 blwydd ond o dan 4 blwydd | Mwy na 7,500 | mwy na 7.5 |
| 4 blwydd ond o dan 5 mlwydd | Mwy na 6,500 | mwy na 6.5 |
| 5 mlwydd ond o dan 6 mlwydd | Mwy na 6,000 | mwy na 6.0 |
| 6 blwydd a throsodd | Mwy na 5,500 | mwy na 5.5 |

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu ac yn ailddeddfu Gorchymyn Lewcosis Buchol Ensootig 1997 (O.S. 1997/757) o ran Cymru.

Mae'r Gorchymyn yn gweithredu'r darpariaethau sy'n ymwneud â llaeth yng Nghyfarwyddeb y Cyngor 64/432/EEC, fel y'i diwygiwyd (ar broblemau iechyd sy'n effeithio ar fasnach anifeiliaid buchol a moch o fewn y Gymuned) (O.J. Rhif L121, 29.7.64, t.1977) a Chyfarwyddeb y Cyngor 77/391 EEC, fel y'i diwygiwyd, (cyflwyno mesurau'r Gymuned i ddileu brwselosis, twbercwlosis a lewcosis) (O.J. Rhif L145, 13.6.77, t.44). Mae'r Cyfarwyddebau hyn yn gwneud gweithredu rhaglen fonitro a phrofi yn ofynnol at ddiben cadw statws swyddogol Prydain Fawr fel lle sy'n rhydd rhag lewcosis buchol ensootig o dan Gyfarwyddeb y Cyngor 64/432/EEC.

Mae'r prif newidiadau sy'n cael eu gwneud gan y Gorchymyn hwn yn ymwneud â'r trefniadau profi llaeth am dystiolaeth o lewcosis buchol ensootig a dileu'r rhestr o labordai a gymeradwywyd a gynhwyswyd yn Atodlen 1 i Orchymyn 1997.

Rhaid hysbysu'r Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol os canfyddir bod unrhyw anifail, carcas neu sampl labordy wedi'i heintio â lewcosis buchol ensootig (erthyglau 3, 4 a 5).

Mae Erthygl 6 yn nodi dyletswyddau'r sawl sy'n prynu llaeth i'w ailwerthu i sicrhau bod y llaeth yn cael ei anfon i'w brofi mewn labordy a gymeradwywyd.

Rhaid i'r person y mae labordy a gymeradwywyd dan ei ofal hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol o fewn 24 awr os yw canlyniad unrhyw brawf yn gadarnhaol ac o fewn mis os yw'r canlyniad yn negyddol. Hefyd, rhaid i'r person hwnnw gadw cofnodion o'r holl brofion a wneir am gyfnod o flwyddyn o ddyddiad y prawf (erthygl 6(5)(e)).

Mae methu â chydymffurfio ag unrhyw ddarpariaeth yn y Gorchymyn hwn yn dramgwydd yn erbyn Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981.

Mae Arfarniad Rheoliadol yn ymwneud â'r Gorchymyn hwn wedi ei baratoi ac wedi ei roi yn llyfrgell y Cynulliad Cenedlaethol. Gellir cael copïau oddi wrth Swyddfa y Prif Swyddog Milfeddygol, Adran Clefydau Endemig, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.